O deuwch, ffyddloniaid

Caneuon Ffydd: Rhif 463

O deuwch, ffyddloniaid,
oll dan orfoleddu,
O deuwch, O deuwch i Fethlehem dref:
wele, fe anwyd
Brenin yr angylion:
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!

O cenwch, angylion,
cenwch, gorfoleddwch,
O cenwch, chwi holl ddinasyddion y nef
cenwch "Gogoniant
i Dduw yn y goruchaf!"
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!

O henffych, ein Ceidwad,
henffych well it heddiw;
gogoniant i'th enw drwy'r ddaear a'r nef.
Gair y tragwyddol
yma'n ddyn ymddengys:
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!

Priodolir i J. F. WADE, 1711–86
cyf. ANAD.

MYFYRDOD

Bu'r ffyddloniaid yn canu'r garol 'Adeste fideles' ers dechrau'r ddeunawfed ganrif, yn Lladin i ddechrau, ond mewn amryw o ieithoedd bellach ar hyd a lled ein daear. Gwahoddiad sydd ynddi i orfoleddu, i ganu ac i addoli. Ond mae yna wahoddiad inni ddod ynghyd i le arbennig hefyd: 'O deuwch i Fethlehem dref.' Beth welem ni ym Methlehem heddiw pe derbyniem ni'r gwahoddiad taer hwn yn llythrennol?

Bellach does fawr neb yn teithio i Fethlehem. Yn y gorffennol, gwelwyd tref Bethlehem dan warchae a'i thrigolion yn gorfod aros yn eu tai wedi'r nos oherwydd tensiynau rhwng y Palestiniaid a'r Israeliaid. Bychan iawn yw'r dystiolaeth Gristnogol yno bellach ac olion bwledi hyd adeilad Eglwys y Geni. Er gwaethaf hyn, fe bery llawer i dderbyn y gwahoddiad i ymweld â

Bethlehem oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yno tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

Roedd hi'n brysur iawn yno bryd hynny hefyd, a'r wlad dan orthrwm y Rhufeiniaid. Nid gwahoddiad a gafodd Joseff i fynd â'i deulu i Fethlehem, ond gorchymyn, oherwydd bod Cesar Awgwstus eisiau cofrestru pawb trwy ei holl ymerodraeth. Yno y ganwyd plentyn i Joseff a Mair; yr ydym yn gyfarwydd â'r hanes. Ond oherwydd y geni hwnnw fe wahoddwyd llawer yn rhagor i ddod i Fethlehem. Hwn oedd 'Brenin yr angylion' yn 'Grist o'r nef', 'Gair y tragwyddol', yn dragwyddol ei genhedliad, ond yn cael ei eni trwy broses o enedigaeth boenus, naturiol er mwyn ei ymgnawdoli yn ein plith. Canodd yr angylion 'Gogoniant i Dduw yn y goruchaf', ac fe wahoddwyd y bugeiliaid. Pobl oedd y rheiny a oedd yn ymwybodol o bwysigrwydd eu tref fechan yn Jwda, a wyddai'r hanes am Dafydd a fu'n fugail ar yr un bryniau â nhw, ac a ddaeth yn frenin ar Israel. Fe wydden nhw hefyd fod Micha wedi proffwydo ganrifoedd ynghynt mewn proffwydoliaeth odidog am yr un a fyddai'n cael ei eni yno i fod 'yn llywodraethwr yn Israel' ac 'yn fawr hyd derfynau'r ddaear' (Micha 5:2–5). Brysient i'w gyfarfod.

Daeth eraill hefyd yn y man, dan wahoddiad seren newydd a ymddangosodd yn yr awyr. Teithiodd y doethion 2,000 o filltiroedd i Fethlehem er mwyn addoli'r brenin newydd oedd wedi ei eni yno. Ond golygodd eu hymweliad fod eraill wedi dod yn eu sgil, yn ddiwahoddiad. Gyrrodd Herod filwyr i Fethlehem i ladd y plant dan ddwyflwydd oed a gaed yno, a bu'n rhaid i Joseff a'i deulu ffoi i'r Aifft am eu bywydau. Roedd trais a lladd yno bryd hynny hefyd.

Mae hanes ei fywyd oddi ar hynny yn rhyfeddol. Pregethodd y Newyddion Da am dair blynedd. Ni sgrifennodd lyfr na chodi eglwys i'w enw, eto ef yw'r cymeriad canolog yn hanes dynoliaeth o hyd, a 'gogoniant' yn cael ei seinio i'w 'enw drwy'r ddaear a'r nef'. Dewch i ninnau dderbyn y gwahoddiad, nid yn gymaint i Fethlehem ei hun, ond i'w addoli ef. 'O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!'

GWEDDI

Mae'r gwahoddiad yn un taer, Arglwydd. Yr wyt ti'n parhau i estyn dy wahoddiad i mi ac i'r byd yn gyfan ddod a'th addoli. Gad i'n haddoliad ddwyn gogoniant i enw Iesu trwy'r ddaear a'r nef. Amen.